Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26

Crynodeb cyhoeddus o sut rydym yn cael ein llywodraethu, pwy sy'n atebol, a sut rydym yn sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn.

CASGLIAD CYFFREDINOL

Roedd y trefniadau llywodraethu'n dda yn ystod 2025/26, gyda gwiriadau rheolaidd, rheoli risgiau, ymatebion cadarnhaol gan archwilwyr a gwelliant parhaus wrth i'r Comisiwn ymgymryd â chyfrifoldebau newydd.

BETH MAE HYN YN EI OLYGU I'R CYHOEDD

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae dewisiadau'n cael eu gwirio, sut mae arian cyhoeddus yn cael ei reoli, a sut mae risgiau'n cael eu trin. Mae'n dangos bod y Comisiwn yn dilyn y gyfraith, yn defnyddio ei gyllideb yn briodol, ac yn atebol i'r cyhoedd a Llywodraeth Cymru.

NEGESEUON ALLWEDDOL O 2025/26

1. **Trefniadau llywodraethu cryf**
Mae'r Comisiwn yn cael ei reoli'n dda ac yn dilyn rheolau ac arfer gorau.

2. **Goruchwyliaeth glir**
Roedd y Comisiwn a'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gwirio cyflawni, cyllid, a risg.

3. **Rheoli risg yn weithredol**
Adolygwyd capasiti'r Comisiwn, materion seiber, dealltwriaeth y cyoedd a chyflawni bwrwpleidlais.cymru

4. **Cyfrifoldebau newydd**
Cefnogwyd cyfrifoldebau gan gynllunio a sicrwydd cryfach gan y Comisiwn.

5. **Sicrwydd archwilio cadarnhaol**
Dywedodd yr archwilwyr mewnol fod rheolaethau i reoli risgiau yn rhesymol ac yn effeithiol.

6. **Tryloywder**
Rhwnnwyd nodiadau cyfarfod a dogfennau pwysig, lle bo'n briodol.

SUT Y DANGOSWYD ATEBOLRWYDD

ARWEINYDDIAETH	Gwiriodd ein cyfarfodydd sut rydym yn cwblhau ein gwaith a sut rydym yn rheoli arian a risgiau.
RISG	Rydym yn cadw llygad ar risgiau busnes a gweithredol ac yn sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill i leihau'r risgiau hynny yn cael eu cwblhau.
ARCHWILIO	Adolygwyd y canfyddiadau, a derbyniwyd yr awgrymiadau i helpu'r Comisiwn i weithredu'n well.
SEIBERDDIOGELWCH	Roedd y systemau iawn ar waith i gadw systemau a gwybodaeth y Comisiwn yn ddiogel.
TRYLOYWDER	Cyhoeddwyd papurau fel y gallai pobl weld a herio gwaith y Comisiwn.

HERIAU Y DELIWYD Â NHW YN YSTOD Y FLWYDDYN

Gwnaethom ddelio â dyletswyddau newydd, gwaith etholiad, siarad â rhanddeiliaid, prynu, seiberddiogelwch, a phrosiectau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig trwy gadw llygad agosach ar bethau, cynllunio'n well, gwirio ein gwaith, ac adolygu risgiau'n aml.

Yn fyr: bydd trefniadau llywodraethu'n parhau i newid yn 2026/27.